



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Adolygiad o Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

Medi 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad “Adolygiad o Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010” ar 11 Ebrill 2017 ac roedd yn agored i ymatebion tan 12 Gorffennaf 2017. Rhannwyd yr Ymgynghoriad yn bedair rhan, oedd yn ymdrin â gofynion mandadol y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed Ewropeaidd, diwygiadau i wneud rhai adrannau o’r Rheoliadau yn gliriach, newidiadau i’r rhestr ffioedd a chyfeiriad polisi i’r dyfodol ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat a’r Rheoliadau.

Gosodwyd cyfanswm o 15 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad a darparwyd ffurflen ymateb ar-lein hefyd er hwyluso ymateb drwy’r e-bost.

Isod ceir crynodeb o’r ymatebion, wedi eu trefnu yn ôl rhannau gwahanol yrr ymgynghoriad:

Rhan 1: Trawsosod y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed

Rhan 2: Newidiadau ychwanegol

Rhan 3: Newidiadau posibl i’r Rheoliadau (Rhestr Ffioedd)

Rhan 4: Newidiadau i’r Rheoliadau yn y dyfodol a materion ychwanegol a godwyd yn ystod trafodaethau cyn ymgynghori (polisi ar gyflenwadau dŵr preifat yn y dyfodol).

## Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 24 o ymatebion i’r ymgynghoriad hwn. Derbyniwyd yr ymatebion drwy gyfuniad o ymatebion e-bost a chyflwyno ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar-lein. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli grwpiau sefydliadol fel a ganlyn:

- Cyrff y sector cyhoeddus ac ymatebion grwpiau (heb gynnwys ymatebion awdurdodau lleol penodol) 6
- Ymatebion awdurdodau lleol 6
- Ymatebion unigolion preifat 7
- Ymatebion undeb amaethyddol 1
- Ymatebion sefydliadau cynrychioliadol preifat 2
- Ymatebion grŵp iechyd cyhoeddus 1
- Ymatebion elusen 1

## Rhan 1: Trawsosod y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed

Ym mis Hydref 2015 daeth y Comisiwn Ewropeaidd â diweddariadau i Atodiadau II a III o'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed i rym, gan ofyn i aelod-wladwriaethau drawsosod y diwygiadau erbyn 27 Hydref 2017.

Roedd rhan un yr ymgynghoriad yn manylu ar y diwygiadau oedd eu hangen i'r Rheoliadau er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau'n adlewyrchu diweddariadau yn y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

### **Cwestiwn 1: Oes yna unrhyw agweddau ar y gofynion newydd y mae arnoch eisiau mwy o eglurder arnynt?**

Bwriadwyd i'r cwestiwn hwn ddenu sylwadau ynglŷn â'r gofynion newydd yn unig yn y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed a ddisgrifiwyd yn adran 1.

Cafwyd 13 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Defnyddiodd nifer o ymatebwyr (7) yr adran hon i ofyn am ragor o eglurder mewn perthynas ag eithriadau yn Rheoliad 3 a'r diffiniad o denantiaethau yn Rheoliad 10 (8 atebwr).

Caiff yr ymatebion hyn eu hystyried o dan gwestiynau perthnasol yr ymgynghoriad, ymhellach ymlaen yn y crynodeb o'r atebion.

Gofynnai un ymatebwr am ragor o eglurder gyda golwg ar yr achrediad sydd ei angen ar gyfer samplu, cludo a dadansoddi dŵr yfed o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Bu Llywodraeth Cymru'n ystyried y mater hwn ac, yn dilyn ymgysylltu ymhellach â'r Awdurdodau Lleol, bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu sesiwn hyfforddi ar gyfer yr awdurdodau lleol er mwyn rhannu dogfennau arweiniad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac arfer da mewn perthynas ag Asesiadau Risg, samplu a dadansoddi o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Galwodd dau ymatebwr am eglurder pellach ynglŷn â'r modd y caiff y ffioedd eu cymhwyso i berchnogion cyflenwadau mewn amgylchiadau gwahanol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac awdurdodau lleol i sicrhau bod yna arweiniad cynhwysfawr wrth gymhwyso ffioedd a bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ffioedd.

## Rhan 2: newidiadau ychwanegol

**Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas ag ehangu'r eithriad presennol yn Rheoliad 3 ar gyfer golchi cnwd fel ei fod yn cynnwys dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw broses gynhyrchu bwyd, cyn belled â bod dim effaith ar iachusrwydd y bwyd?**

Roedd yna 13 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Nodai saith o'r ymatebion fod Rheoliad 3 fel pe bai'n gorgyffwrdd â deddfwriaeth cynhyrchu bwyd, gan fynegi pryder y gallai'r rheoliad hwn, pe na châi ei eirio'n gywir, danseilio neu groesddweud deddfwriaeth bwyd.

Roedd chwech ymatebwr o blaid ehangu'r eithriad yn Rheoliad 3, ac ychwanegwyd cafeat pellach gan dri o'r rhai oedd o blaid, sef yr amod nad oedd yn peryglu deddfwriaeth bwyd bresennol a bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn fodlon ar unrhyw eithriadau arfaethedig.

Roedd ymateb yr Asiantaeth Safonau Bwyd o blaid y rheoliad, cyn belled ag na fyddai unrhyw newidiadau yn peryglu gofynion Rheoliad 852/2004 (yn benodol Atodiad I Rhan A (II) ac Atodiad II Pennod II, III a VII).

Mynegodd nifer o ymatebwyr o awdurdodau lleol hefyd ddymuniad i weld mwy o fewnbwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, lle roedd awdurdodau lleol yn ceisio penderfynu ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliad hwn, yn ogystal ag eglurder ynghylch y modd y caiff y penderfyniad ei wneud a phwy sy'n gwneud y penderfyniad ar yr eithriad hwn.

Teimlai ymatebwyr o awdurdodau lleol hefyd y byddai'n fuddiol i'w swyddogion gael eu hyfforddi a'u hachredu mewn Pwynt Perygl a Rheolaeth Peryglon (HACCP).

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau nad yw'r geiriad o gwmpas rheoliad 3 yn amwys neu'n groes i reoliad 852/2004.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i sicrhau bod arweiniad yr arolygiaeth i awdurdodau lleol yn rhoi proses benderfynu glir ar gyfer y rheoliad hwn.

Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod y swyddogion sy'n gyfrifol am gyflenwadau dŵr preifat wedi derbyn hyfforddiant HACCP.

### **Cwestiwn 3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y mathau o denantiaethau yr ydym yn bwriadu eu cau allan drwy ganllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed?**

Roedd yna 14 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Awgrymodd saith ymatebwr (awdurdodau lleol yn bennaf) egluro'r meini prawf ar gyfer tenantiaeth o fewn y Rheoliadau yn ôl "p'un a oedd rhent yn cael ei thalu". Awgrymodd chwech ymatebwr groesgyfeirio'r diffiniad o denantiaeth â deddfwriaeth tai berthnasol yng Nghymru.

Nodai saith o ymatebion (oddi wrth gyfuniad o awdurdodau lleol, cyrff iechyd a CLA ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)) na ddylai fod unrhyw eithriadau, os oedd y rheoliadau yno i amddiffyn iechyd y cyhoedd, ac y dylid cynnig mesur cyfartal o amddiffyniad oddi wrth y Rheoliadau i'r holl denantiaethau. Roedd dau ymateb (un awdurdod lleol ac un ymateb personol) o blaid yr eithriadau a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad. Teimlai un ymatebwr y dylid gadael landlordiaid a busnesau allan o'r Rheoliadau os oeddent wedi sefydlu eu proses asesu risg / monitro a samplu eu hunain.

Awgrymai nifer o ymatebion hefyd y byddai gweithio agosach yn fuddiol rhwng swyddogion awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat, a swyddogion sy'n delio ag arolygiadau tai.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau bod y diffiniad o denantiaeth yn cyd-fynd â'r hyn a roddir mewn deddfwriaeth tai yng Nghymru ac yn gofyn i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed roi cyfarwyddyd pellach o fewn eu harweiniad er eglurder.

#### **Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y gofyniad i gynnal asesiad risg ar gyfer cyflenwadau newydd?**

Roedd yna 16 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Gwelai chwech atebwr fanteision defnyddio'r rheoliad hwn i sicrhau bod cyflenwadau masnachol / rheoliad 9 yn cael eu hasesu cyn eu defnyddio.

Rhybuddiai nifer o ymatebwyr yn erbyn defnyddio'r dull hwn gydag aneddiadau domestig sengl, gan ddweud nad oedd yn glir a oeddent wedi eu cynnwys yn y rheoliad hwn.

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i weld a ellid ychwanegu rhywbeth i'r broses ceisiadau cynllunio fyddai'n golygu nodi a thynnu sylw at le yr oedd bwriad i ddefnyddio cyflenwad preifat, er mwyn galluogi swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol i asesu'r wybodaeth hon yn fuan.

Teimlai chwech atebwr, os oedd y cyflenwadau yn ymwneud â bwyd, fod angen iddynt ddilyn egwyddorion HACCP a derbyn dilysiad cyn cael eu defnyddio (neu yn dilyn cyfnod o beidio cael eu defnyddio).

Roedd tri o'r ymatebion yn gwbl yn erbyn cynnal asesiad risg cyn i gyflenwad newydd gael ei ddwyn i mewn, gan y teimlent fod y rheiny sy'n dod â chyflenwadau newydd i mewn yn dilyn arfer da yn barod o ran dylunio, seilwaith ac adeiladu, ac y byddai'r gofyniad hwn yn dyblygu gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan berchennog cyflenwad.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r sylw hwn ond hefyd yn dweud bod cyfradd fethu cyflenwadau dŵr preifat, o ran ansawdd dŵr, yn adroddiadau blynyddol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, yn gyson yn sylweddol uwch nag ar gyfer y prif gyflenwadau dŵr, gyda 5.2% o gyflenwadau dŵr preifat yn methu â chyrraedd y safonau cenedlaethol. Yn 2016 cofnodwyd 187 o gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru fel perygl posibl i iechyd dynol, gydag awdurdodau lleol yn rhoi hysbysiadau Rheoliad 18 ar y cyflenwadau. O'r methiannau hyn, roedd 70% ohonynt yn gyflenwadau mawr neu'n gyflenwadau i eiddo masnachol neu gyhoeddus. Mae hyn yn ymddangos fel arwydd nad yw nifer o gyflenwadau dŵr preifat yn dilyn arfer da o ran dylunio, adeiladu a rheoli.

Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus nad oedd gan awdurdodau lleol o bosibl yr adnoddau i gyflawni'r rheoliad hwn mewn modd amserol, a galwent ar Lywodraeth Cymru neu'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i lunio Cod Ymarfer er mwyn sefydlu blaenoriaethau ynghylch rheoli risg a samplu cyflenwadau dŵr preifat.

Mynegwyd pryderon hefyd fod y ffaith nad oes dyletswydd gyfreithiol ar berchennog y cyflenwad i ddatgan ei gyflenwad yn gwneud y dasg yn fwy heriol i awdurdodau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod geiriad y rheoliad a'r arweiniad yn ei gwneud yn glir bod y rheoliad hwn yn ymwneud â chyflenwadau rheoliadau 8, 9 a 10. Bydd Llywodraeth Cymru'n trafod gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a all eu canllawiau hwy roi rhyw gyfarwyddyd i awdurdodau lleol mewn perthynas â blaenoriaethu.

### Rhan 3: Y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Rhestr Ffioedd)

#### Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r rhestr ffioedd?

Roedd yna 17 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd dau ymatebwr yn fodlon ar y tabl ffioedd newydd arfaethedig. Nododd wyth ymatebwr fod modd cyfiawnhau'r cynnydd yn y ffioedd ond roeddent yn cwestiynu a fyddai'r cynnydd yn ddigon i dalu'r costau yn yr holl achosion. Galwai'r wyth ymatebwr hefyd am becyn cymorth ffioedd fel sy'n cael ei ddefnyddio mewn meysydd sy'n cael eu rheoleiddio yn yr un modd megis bwyd.

Teimlai pedwar ymatebwr nad oedd y newidiadau arfaethedig yn dderbyniol. Y prif sylw yn y pryderon hyn oedd bod y ffioedd yn gosod cost ar berchnogion cyflenwadau, nad oes ganddynt y dewis o symud i'r prif gyflenwad na dull arall o gynnal eu cyflenwad ond drwy ddeddfwriaeth orfodol. Teimlai ymatebwyr y dylai fod yna ffordd iddynt asesu perygl a monitro eu cyflenwadau eu hunain a datgan eu hunain wrth yr awdurdodau lleol.

Dywedodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y dylid gwneud pob ymdrech i gadw costau mor isel ag sydd modd tra mae hi'n orfodol cyflawni'r gwaith hwn.

#### Cwestiwn 6: A ydych yn teimlo y dylid dileu'r uchafswm ar gyfer ffioedd yn hytrach na newid y ffioedd?

Roedd yna 16 ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r 16 o ymatebion, un ymatebwr yn unig oedd o blaid dileu'r terfyn uchaf ar y ffioedd ar y ddealltwriaeth y dylai'r ffioedd fod yn eu cyfyngu eu hunain.

Cred ymatebwyr y dylai'r cap ar y ffioedd aros yn ei le am y rhesymau canlynol:

- Mae'n rhoi sicrwydd cost i'r rheiny sydd angen asesiad risg a monitro.
- Mae'r cap yn caniatáu i'r awdurdod lleol a pherchennog y cyflenwad adeiladu elfen o ymddiriedaeth yn y berthynas reoliadol, a all fynd ar goll os bydd perchnogion cyflenwadau yn amheus ynglŷn â'r costau sy'n cael eu codi mewn awdurdod unigol.
- Pryder pe câi'r cap ei ddileu y gallai'r ffioedd fynd yn ddireol a bod heb derfyn, ac efallai y defnyddid ffioedd i gynhyrchu incwm yn hytrach nag adennill costau.

Roedd saith ymatebwr yn cytuno â'r cap, ond yn mynegi dymuniad i weld elfen o hyblygrwydd o gwmpas 'amgylchiadau nas rhagwelwyd', megis profion ar rai paramedrau yn fwy costus.

Roedd dau ymateb yn gwbl wrthwynebus i egwyddorion y ffioedd yn y lle cyntaf, cap neu ddim.

## **Cwestiwn 7: Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda hyn fel dull posibl?**

Roedd yna 15 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd wyth o'r ymatebion yn tynnu sylw at y pryder y byddai dileu'r cap neu eirio'r rheoliad hwn mewn ffordd amhenodol yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'r rheoliad yma fel offeryn i godi incwm ar gyfer yr awdurdod lleol.

Nododd saith ymatebwr fod yna heriau yn bodoli eisoes o ran diffyg talu.

Nododd dau ymatebwr y byddai yna fwy o berygl na fyddai perchnogion yn datgan eu cyflenwadau pe baent yn gweld y ffioedd yn afresymol, a dywedent hefyd fod codi ffioedd yn gweithio'n groes o ran sicrhau bod perchnogion yn datgan eu cyflenwadau eu hunain.

Roedd dau ymatebwr yn bryderus y gallai hyn arwain at anghysondeb yn yr hyn a ystyrir yn gost realistig gan awdurdodau lleol gwahanol, ac y gallai awdurdodau lleol fabwysiadu dull rhy wyladwrus gan arwain at gostau ychwanegol. Roedd pryder hefyd y gallai'r dehongliad o 'resymol' arwain at heriau cyfreithiol os nad oedd perchnogion cyflenwadau yn cytuno gyda dehongliad yr awdurdod lleol.

Codwyd pryder hefyd y gallai'r cyflenwadau mwyaf anghysbell ddioddef costau uwch, gyda chymunedau gwledig bregus yn wynebu costau uwch am anghenion darparu gwasanaeth sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Yn dilyn ymatebion yr ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r tabl ffioedd arfaethedig yn hytrach na dileu'r cap. Bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed roi arweiniad manwl ynglŷn â'r ffordd y mae'r ffioedd i gael eu cymhwyso ac i edrych i weld a ellir datblygu pecyn cymorth ffioedd i'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru'n atgoffa'r awdurdodau lleol bod dyletswydd arnynt i gyhoeddi eu ffioedd fel y gall perchnogion cyflenwadau weld faint y mae eu hawdurdod lleol unigol yn ei godi.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych i mewn i'r dewisiadau sydd ar gael i wrthbwyso rhai o'r costau cysylltiedig â ffioedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod gan berchnogion cyflenwadau dŵr preifat, sy'n defnyddio'u dŵr i ddibenion masnachol, y fantais economaidd o beidio gorfod talu biliau dŵr.

**Rhan 4: Newidiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol a sylwadau ar y materion ychwanegol a godwyd yn ystod trafodaethau cyn ymgynghori (polisi ar gyflenwadau dŵr preifat yn y dyfodol).**

**Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r posibilrwydd o archwilio dewisiadau ynghylch nodi a chofnodi yr holl ffynonellau cyflenwi dŵr preifat yng Nghymru?**

Roedd yna 18 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd saith ymatebwr yn llwyr o blaid y syniad o edrych i mewn i'r dewisiadau ar gyfer canfod yr holl gyflenwadau dŵr preifat, gan nodi y byddai hyn yn fuddiol o safbwynt iechyd cyhoeddus ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ganfod a hysbysu ynghylch cyflenwadau oedd mewn perygl yn dilyn digwyddiadau llygru neu halogi. Nododd pedwar ymatebwr y byddai mwy o wybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru yn gymorth i ddeall yn well y materion sy'n ymwneud â digonolrwydd dŵr a thynnu dŵr.

Roedd chwech ymatebwr o blaid y syniad ond yn cwestiynu a oedd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd yr adnoddau a'r gallu i reoli cyflenwadau dŵr preifat sydd eisoes wedi eu canfod.

Roedd pedwar ymatebwr yn erbyn unrhyw waith pellach i ganfod cyflenwadau dŵr preifat oherwydd pryderon ynghylch y gost a'r adnoddau i weithredu unrhyw beth oedd heb fudd diffiniedig.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr edrych ar y posibilrwydd o osod gofyniad mewn ceisiadau cynllunio i ddatgan sut y caiff dŵr ei gyflenwi i ddatblygiad, fel un dull o gynyddu'r data a gedwir ar gyflenwadau dŵr preifat, a hefyd gweld a oedd yna ddull o ddatgan cyflenwad dŵr pan fyddai eiddo yn newid dwylo.

### **Cwestiwn 9: Ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol edrych ar wneud cofrestru'n ofynnol ar gyfer pob cyflenwad dŵr preifat yng Nghymru naill ai o fewn y ddeddfwriaeth hon neu drwy ddeddfwriaeth newydd os oes angen?**

Roedd yna 18 ymateb i'r cwestiwn hwn: 10 o blaid, 5 heb fod o blaid a 3 o ymatebion niwtral.

Roedd y rhesymau a roddwyd dros yr ymatebion cadarnhaol yn cynnwys:

- Canfod cyflenwadau dŵr preifat nad oedd gwybodaeth amdanynt o'r blaen (yn enwedig rhai masnachol)
- Gwella iechyd cyhoeddus a chaniatáu i'r Asiantaeth Diogelwch Bwyd a'r Awdurdodau Lleol edrych ar raglenni arolygu cynllunio yn unol â hynny
- Y gallu i ganfod y cyflenwadau sydd mewn perygl o lygredd neu halogiad
- Y gallu i ddeall yr holl ddŵr sy'n cael ei dynnu mewn parth adnoddau dŵr.

Roedd y rhesymau a roddwyd dros yr ymatebion negyddol yn cynnwys:

- Biwrocratiaeth a chost ddianghenraid
- Awdurdodau lleol eisoes yn cadw cofrestru ar gyfer y cyflenwadau y maent yn eu harchwilio
- Dim yn gweld y cysylltiad pendant rhwng cofrestru a datrys problemau gyda chyflenwadau pan fyddant yn digwydd yn fwy effeithiol mewn unrhyw ffordd.

Nodai ymatebwyr y byddai'n rhaid dibynnu'n drwm o bosibl ar ddefnyddwyr yn rhoi gwybodaeth ac y byddai unrhyw ddull yn gofyn am adnoddau pellach a gorfodaeth i sicrhau bod y wybodaeth yn ddiweddar ac yn gywir.

Nodai pedwar ymatebwr hefyd pe gosodid gofynion ar ddrilwyr tyllau turio i gofrestru pob twll turio gyda'r awdurdod lleol y byddai'n haws cadw cofrestr yn gywir.

### **Cwestiwn 10a: A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cronfa ddata ledled Cymru i gadw gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat?**



**Cwestiwn 10b: Pe bai cronfa ddata yn cael ei datblygu i gadw gwybodaeth am gyflenwadau dŵr preifat ledled Cymru, pwy ydych chi'n teimlo fyddai orau i fod yn gyfrifol amdani'n gyffredinol?**

Roedd yna 19 ymateb i gwestiwn 10a, 14 cadarnhaol a 5 negyddol.

Roedd ymatebwyr cefnogol yn gweld manteision posibl gan gynnwys:

- Symleiddio data a fformatau rhwng yr awdurdodau lleol
- Mynediad at asesiadau risg ar draws ffiniau
- Adnabod grwpiau sydd mewn perygl oddi wrth broblemau llygredd neu ddigonolrwydd a goblygiadau tynnu dŵr
- Y gallu i ganfod eiddo masnachol anhysbys sydd ar gyflenwad dŵr preifat
- Byddai cronfa ddata ledled Cymru yn dymchwel y ffiniau seiliedig ar awdurdodau lleol, nad ydynt yn berthnasol i newidiadau mewn ffactorau amgylcheddol (sef defnydd tir, daeareg...), gan helpu i wella'r ddealltwriaeth ynghylch ansawdd dŵr, diogelwch dŵr ac iechyd dŵr
- Cynorthwyo gyda pholisi defnydd tir a chynllunio yn y dyfodol
- Y posibilrwydd o leihau'r baich o ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac EIW a chaniatáu mynediad ehangach at wybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol.

Roedd yr ymatebwyr oedd yn erbyn y syniad o gronfa ddata yn mynegi pryderon ynglŷn â biwrocratiaeth, costau a sut y câi'r wybodaeth ei defnyddio.

Ar gyfer cwestiwn 10b, y prif ymatebion oedd i awdurdod lleol arweiniol gael yr adnoddau i ddatblygu a chynnal cronfa ddata ledled Cymru. Awgrymai rhai ymatebwyr ddull tebyg i ddull Rent Smart.

Roedd ymatebion eraill yn cynnwys awgrym y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) gadw'r wybodaeth oherwydd ei bod yn gorgyffwrdd â gwybodaeth am dynnu dŵr a gwybodaeth am danciau septig a gedwir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Teimlai dau ymatebwr y dylai hyn eistedd gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed gan y teimlir mai dyma'r rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer Dŵr Yfed.

Teimlai tri ymatebwr y dylid datblygu'r gronfa ddata mewn partneriaeth gan ganiatáu mynediad perthnasol at y wybodaeth i rai cyrff, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rheoleiddwyr bwyd.

**Cwestiwn 11: A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch cynigion i edrych ar ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr masnachol a chyflenwyr newydd ddefnyddio gosodwyr triniaeth a drilwyr tyllau turio cofrestredig?**

Roedd yna 20 ymateb i'r cwestiwn hwn: 12 cadarnhaol, 3 negyddol a 5 ymateb niwtral.

Roedd rhai o'r ymatebion yn tynnu sylw at ddryswch wrth geisio deall y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol gyda golwg ar dyllau turio.

Gallai 17 o ymatebwyr weld manteision posibl gyda dull deddfwriaethol ond disgwylent i rai cafeatau gael eu hystyried yn y broses gan gynnwys:

- Cynllun sicrhau ansawdd ar gyfer gosodwyr a drilwyr (fel cynllun plymwaith WRAS) i sicrhau bod y twll turio / gwaith sefydlu'r cyflenwad o ansawdd derbyniol.

- Cysylltu hwn â'r broses gynllunio, er mwyn sicrhau ansawdd cyflenwadau mewn da bryd cyn dechrau eu defnyddio.
- Ar yr amod bod arweiniad presennol ac arfer da yn cael ei ddiweddarau a bod y ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â hyn yn cael ei gorfodi'n amlach oherwydd enghreifftiau o waith gosod gwael.

Roedd 2 ymatebwr na wyddent am unrhyw dystiolaeth i gefnogi gofyniad deddfwriaethol i gofrestru tyllau turio, a galwent am gasglu mwy o dystiolaeth er mwyn deall y mater cyn ychwanegu rhywbeth a allai o bosibl droi allan i fod yn gostus i'r rheiny fyddai angen tyllau turio ar gyfer cyflenwadau newydd.

Mynegai'r rheiny, oedd yn erbyn unrhyw ddeddfwriaeth bellach, bryderon cryf y byddai'r gost yn syrthio ar berchnogion y cyflenwadau, nad oedd ganddynt ddewis, mewn llawer o achosion, ond bod ar gyflenwad dŵr preifat.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r ymatebion i gwestiynau 8 i 11 a bydd yn ystyried yr ymatebion yma cyn cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

### **Cwestiwn 12: Byddem yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer Rheoliadau drafft Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017.**

Roedd yna 15 o sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Mae chwech ymatebwr wedi gofyn a ellir darparu arweiniad pellach ynglŷn â rheoliad 11 a monitro ar gyfer sylweddau ymbelydrol.

Nododd nifer o ymatebwyr yr hoffent weld dull cyson yn cael ei weithredu gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Dywedent fod ffioedd a rhai rheoliadau yn cael eu trin yn wahanol gan bob awdurdod lleol.

Mae tri ymateb yn nodi bod eithrio rhai aneddiadau domestig sengl yn bwnc sy'n dal i ennyn trafodaeth ac y gall fod yn anodd ceisio egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r eithriad i'r cyhoedd. Nododd un ymateb y byddai mwyafrif y bobl sy'n defnyddio cyflenwad preifat yng Nghymru yn byw mewn annedd domestig sengl, ac felly nad yw'r rheoliadau yn rhoi amddiffyniad digonol i'r rhan fwyaf o bobl a allai fod mewn perygl oddi wrth gyflenwad dŵr preifat.

Dangosai nifer o ymatebion gan ymatebwyr personol wrthwynebiad i'r Rheoliadau ac ymyriad y Llywodraeth mewn cyflenwadau dŵr preifat, gan fynegi pryderon ynghylch y costau cynyddol o sicrhau bod cyflenwadau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Awgrymai rhai ymatebwyr edrych ar ddulliau mwy gwirfoddol neu ganiatáu i berchnogion cyflenwadau ddangos i'r awdurdodau lleol bod eu cyflenwadau'n iachus.

### **Cwestiwn 13: Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau a gâi Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) ar y Gymraeg, yn benodol ar:**

- i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 14: Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut yr ydych chi'n meddwl y gellid llunio'r Rheoliadau arfaethedig neu eu newid er mwyn cael**

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**
- ii) dim effeithiau anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Roedd yna 6 ymateb i gwestiynau 13 a 14, oedd yn cael eu cysylltu â'i gilydd gan ymatebwyr yn eu hymatebion.

Nododd tri ymatebwr fod cyflenwadau dŵr preifat yn tueddu i fod o natur wledig, fyddai o bosibl yn golygu y byddai'r Rheoliadau yn effeithio ar nifer fwy o siaradwyr Cymraeg.

Nododd ymatebwyr bwysigrwydd darparu'r rheoliadau, y canllawiau, yr adroddiadau ac unrhyw ddeunydd trafodaeth gyhoeddus bellach ynghylch cyflenwadau dŵr preifat yn Saesneg ac yn Gymraeg hefyd.

Nododd un ymatebwr ei bod yn bwysig bod swyddogion llywodraeth leol sy'n ymdrin â chyflenwadau dŵr preifat yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu'r rheoliadau hyn yn Saesneg ac yn Gymraeg hefyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau pan geir ymgysylltiad cyhoeddus ynglŷn â datblygu polisi a rheoliadau pellach, fydd yn effeithio ar gyflenwadau dŵr preifat, bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i ystyried y materion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Cwestiwn 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy, defnyddiwch y lle hwn i adrodd amdanynt, os gwelwch yn dda**

Roedd yna 4 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Hoffai un ymatebwr weld mwy yn cael ei wneud o ran y modd y gellir annog perchnogion cyflenwadau dŵr preifat i gynllunio ar gyfer toriadau yn y cyflenwad a'u rheoli, gan gynnwys gwybodaeth a phrosesau clir ynghylch pwy i gysylltu ag ef er mwyn gofyn am gymorth.

Roedd ar un ymatebwr eisiau i ohebiaeth gan awdurdodau lleol fod yn safonedig a chlir, gan iddo sylwi fod nifer o berchnogion cyflenwadau wedi derbyn gohebiaeth oedd yn ymddangos fel pe bai'n rhoi gwybodaeth gamarweiniol ynglŷn â chyflenwadau domestig sengl.

Cododd un ymatebwr fater trefnu bod grantiau ar gael i gynorthwyo perchnogion cyflenwadau i uwchraddio eu cyflenwadau dŵr preifat.

Gofynnodd 2 ymatebwr am ragor o eglurder ynghylch geiriad rheoliadau penodol.

Nododd Llywodraeth Cymru hefyd fod nifer o'r ymatebion yn cwestiynu'r angen i ddiwygio'r Rheoliadau sy'n ymwneud â Chyfarwyddeb Ewropeaidd, yn dilyn y refferendwm i adael Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i gynnal safon uchel o ddŵr yfed yng Nghymru ac mae wedi ymrwymo o fewn Strategaeth Dŵr Cymru i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael mynediad at ddŵr yfed glân ac iachus. Mae'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed ei hun yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan Sefydliad Iechyd y Byd ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed. Mae'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru.

Bydd y DU yn parhau yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd hyd nes y bydd yn gadael yr Undeb yn ffurfiol yn 2019, ac fel y cyfryw mae'n parhau'n rhwymedig yn gyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Ewropeaidd hyd nes y bydd y broses o adael wedi cael ei chwblhau.

## **Y Camau Nesaf**

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y newidiadau perthnasol yn y rheoliadau mewn perthynas ag atodiadau'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed erbyn mis Hydref 2017.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd yr ymatebion i ystyriaeth, wrth eirio'r rheoliadau drafft yn derfynol i sicrhau bod pwyntiau eglurder yn cael eu clirio.

Bydd Llywodraeth Cymru'n trefnu gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y canllawiau sy'n cael eu darparu ar gyfer yr awdurdodau lleol, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, yn glir a diamwys.

Bydd Llywodraeth Cymru'n trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer yr awdurdodau lleol ynghylch arfer da ar gyfer asesiadau risg, samplu a monitro cyflenwadau dŵr preifat.

Bydd Llywodraeth Cymru'n edrych i weld a oes ffrwd o arian y gellir ei defnyddio i fod o gymorth i wella ansawdd cyflenwadau dŵr preifat.

## **Ystyriaethau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Ymgynghoriad**

Cododd yr Ymgynghoriad nifer o bwyntiau ynghylch costau cynyddol i'r awdurdodau lleol ac i berchnogion cyflenwadau hefyd. Byddwn yn ceisio gweld a oes dewisiadau eraill ar gael yn y tymor hwy i sicrhau bod ansawdd dŵr yfed yn gwella i'r rheiny sydd ar hyn o bryd ar gyflenwadau dŵr preifat, heb gynyddu'r baich ariannol yn barhaus ar y rheiny nad oes ganddynt ddewisiadau eraill o ran eu cyflenwad o ddŵr yfed.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o annog awdurdodau lleol i rannu arfer da a gwybodaeth gyda'i gilydd (a rhwng adrannau mewnol), ac yn edrych i weld a oes yna ffyrdd o ddarparu offer sy'n symleiddio cyflawni'r rheoliadau er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol.

## **Rhestr lawn o'r atebwyr**

### **Cyrff sector cyhoeddus ac ymatebion grwpiau**

- Arolwg Daearegol Prydain
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru
- Grŵp Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru

### **Ymatebion Awdurdodau Lleol**

- Cyngor Caerffili
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Mynwy
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Powys
- Cyngor Rhondda Cynnon Taf

### **Ymatebion Unigolion Preifat**

- 7 ymatebwr a fynegodd eu dymuniad i aros yn ddiennw

### **Ymatebion Undeb Amaethwyr**

- Undeb Amaethwyr Cymru

### **Ymatebion Cyrff Cynrychioliadol Preifat**

- Cymdeithas Ganolog Priswyr Amaethyddol
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)

### **Ymatebion Grŵp Iechyd y Cyhoedd (nid y sector cyhoeddus)**

- Partneriaeth Iechyd Dŵr

### **Ymatebion Elusen**

- Cymdeithas Sioe Cwm Llanddewi Nant Hodni a'r Cylch